



CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

(I) Cyflwyniad

- (1) Cyfryngau Cymdeithasol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw wefannau neu declynnau ar-lein sy'n gadael i ddefnyddwyr ryngweithio â'i gilydd drwy rannu neu gyhoeddi gwybodaeth, barn, ymchwil neu sylwebaeth i grŵp ehangach.
- (2) Mae Cyfryngau Cymdeithasol yn ymwneud â chreu cymunedau neu rwydweithiau, gan annog pobl i gymryd rhan ac ymgysylltu â'i gilydd.
- (3) Gall unrhyw un sydd â chyfrifiadur neu gysylltiad i'r rhyngwrwd ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol megis Facebook a Twitter i gyhoeddi barn a gwybodaeth yn rhwydd a chyflym a gwranddo ac ymgysylltu â'r rhai sy'n eu darllen.
- (4) Dros y blynyddoedd diwethaf, mae esblygiad Cyfryngau Cymdeithasol wedi arwain at newid sylfaenol yn y ffordd mae pobl, busnesau a sefydliadau yn cyfathrebu â'i gilydd.
- (5) Oherwydd y defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol, mae'n hanfodol fod y Cyngor yn gwneud defnydd rhagweithiol ohonynt.
- (6) Mae Cyfryngau Cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd newydd i'r Cyngor:
 - i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd
 - i rannu newyddion am y Cyngor
 - i geisio barn
- (7) Ar yr un pryd dylid nodi rhai o'r risgiau amlwg i enw da'r Cyngor o wneud defnydd rhagweithiol o gyfryngau cymdeithasol. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys y ffaith na all y Cyngor reoli'r deunydd a ryddheir ganddo drwy gyfryngau cymdeithasol - unwaith y bydd wedi'i bostio i gynulleidfa darged cychwynol, gellir postio ac ail-bostio deunydd, ei addasu neu ei newid yn unrhyw le drwy rwydweithiau pob unigolyn yn y gynulleidfa honno a thu hwnt.

(II) Y Polisi

2.1 Datganiad polisi

- (1) Pwrpas y polisi hwn yw helpu gweithwyr a Chynghorwyr i wneud penderfyniadau priodol ar ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol.
- (2) Mae'r polisi yn amlinellu'r safonau y mae'r Cyngor yn disgwyl i weithwyr ac Cynghorwyr eu cadw wrth ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol, o dan ba amgylchiadau y caiff y defnydd o gyfryngau cymdeithasol ei fonitro a'r camau a gymerir os gwelir fod amodau'r polisi wedi cael eu torri.



2.2. Cwmpas y Polisi

(1) Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- unrhyw gyfrif Cyfryngau Cymdeithasol sy'n cael ei greu yn enw'r Cyngor
- swyddogion / Cyngorwyr sydd yn defnyddio gwefannau cymdeithasol fel rhan o'u gwaith
- swyddogion / Cyngorwyr sydd yn gwneud defnydd personol o gyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys grwpiau preifat, lle y gallai hynny gael effaith negyddol ar enw da'r Cyngor.

(2) Mae disgwyl i bob gweithiwr a Chynghorydd gydymffurfio â'r polisi hwn yn ddiwahân i warchod preifatrwydd, cyfrinachedd a buddiannau'r Cyngor.

(3) Os yw gweithwyr yn torri amodau'r polisi hwn gellir ymdrin â hynny o dan y Weithdrefn Ddisgyblu ac mewn achosion difrifol gallai gael ei ystyried yn gamymddwyn difrifol yn arwain at ddiswyddiad diamod.

(4) Os yw Cyngorwyr yn torri amodau'r polisi hwn ymdrinnir â hynny yn unol â'r Côt Ymddygiad.

2.3 Cyfrifoldeb am weithredu'r polisi

- (1) Gan y Cyngor y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau gweithrediad effeithiol y polisi hwn.
- (2) Mae'r Clerc yn gyfrifol am fonitro ac adolygu gweithrediad y polisi.
- (3) Dylai pob gweithiwr ac aelod etholedig sicrhau eu bod yn cymryd yr amser i ddarllen a deall y polisi hwn. Dylai unrhyw enghreifftiau o dorri amodau'r polisi hwn gael eu hysbysu i'r Clerc.
- (4) Dylai cwestiynau am gynnwys neu weithredu'r polisi hwn gael eu cyfeirio at y Clerc, a fydd yn cysylltu gyda Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd.

(III) Nodau ac Amcanion Strategol

(1) Nod y polisi hwn yw diogelu a hyrwyddo enw da'r Cyngor drwy ddarparu fframwaith ar gyfer gwneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol.

(2) Dylid ystyried Cyfryngau Cymdeithasol bob amser fel teclyn newydd ac ychwanegol i'w ddefnyddio i gyfathrebu ac ymgysylltu ochr yn ochr â'r dulliau mwy traddodiadol o gyfathrebu ac ymgysylltu.

(IV) Iaith ac Ymatebion



- (1) Bydd yr holl negeseuon a gyfathrebir gan y Cyngor ar gyfryngau cymdeithasol yn cael eu mynegi'n ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg clir a syml.
- (2) Bydd yr holl ymatebion a bostir gan y Cyngor mewn ymateb i ymholiadau a / neu sylwadau ynghylch gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu postio yn yr un iaith â'r ymholiad / sylw gwreiddiol.
- (3) Ni all y Cyngor warantu ymateb prydlon i bob sylwad sy'n cael ei roi ar Gyfryngau Cymdeithasol.
- (4) Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â dilyn neu flocio dilynwyr ar unrhyw adeg.
- (5) Diweddarir cyfrif Facebook y Cyngor yn ystod oriau swyddfa, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig.

(V) Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Caniateir i'r Clerc / Dirprwy Glerc bostio deunydd ar wefan Cyfryngau Cymdeithasol yn enw'r Cyngor ac ar ei ran yn unol â rheolau a chwmpas y polisi hwn.

(VI) Rheolau ar gyfer defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Y rheol gyffredinol yw y disgwylir yr un safonau ymddygiad os yw aelod ar-lein neu beidio. Yn ogystal â dyletswyddau cyfreithiol arferol, dylid cofio'r egwyddorion a ganlyn:-

- Dangos parch at eraill
- Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- Dim bwlio, aflonyddu, erlid na dychryn cyd-gynghorwyr, swyddogion na'r cyhoedd
- Dim ceisio budd personol
- Cofio egwyddorion cydraddoldeb
- Dim annog ymddygiad sy'n groes i'r protocol hwn gan eraill
- Bod yn ofalus i beidio â bod yn rhan o achos fendeta personol yn erbyn eraill

Yn ogystal:

- (1) Peidiwch ag uwch lwytho, postio na danfon ymlaen ddolen at unrhyw gynnwys anwedus, ffaidd, wahaniaethol, aflonyddus, bychanol neu ddifenwol.
- (2) Dylai unrhyw weithiwr/ Gynghorydd sy'n teimlo y cawsant eu haflonyddu neu fwlio, neu a dramgwyddwyd gan ddeunydd a bostiwyd neu a uwch lwythwyd gan gydweithiwr ar wefan Cyfryngau Cymdeithasol, roi gwybod i'r Clerc, fydd yn cysylltu gyda Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd.
- (3) Peidiwch byth â datgelu gwybodaeth fasnachol sensitif, bersonol, breifat neu gyfrinachol. Os nad ydych yn siŵr a yw'r wybodaeth yr hoffech ei rhannu yn perthyn i un o'r categorïau hyn, dylech drafod hynny gyda'r Clerc.
- (4) Peidiwch â llwytho, postio na danfon ymlaen unrhyw gynnwys sy'n eiddo i drydydd parti onid oes gennych gydsyniad y trydydd parti dan sylw.



- (5) Cyn ichi gynnwys dolen i wefan trydydd parti, gwiriwch fod amodau a thelerau'r wefan honno yn caniatáu ichi wneud dolen iddi.
- (6) Wrth ddefnyddio unrhyw lwyfan Cyfryngau Cymdeithasol, mae'n rhaid ichi ddarllen a chydymffurfio ag amodau ei ddefnyddio.
- (7) Byddwch yn onest ac agored, ond byddwch yn ystyriol o'r effaith y gallai eich cyfraniadau ei gael ar ganfyddiadau pobl o'r Cyngor.
- (8) Rydych yn bersonol gyfrifol am gynnwys a gyhoeddwch ar declynnau Cyfryngau Cymdeithasol.
- (9) Peidiwch â dwysáu trafodaethau tanbaid, ceisiwch fod yn gymodlon, yn barchus a chyfeiriwch at ffeithiau.
- (10) Peidiwch â thrafod cydweithwyr heb gael eu cydsyniad ymlaen llaw.
- (11) Dylech bob tro ystyried preifatrwydd pobl eraill a pheidiwch â thrafod materion allai fod yn ymfflamychol e.e. gwleidyddiaeth a chrefydd. Cofiwch, er ei bod yn dderbyniol gwneud pwyntiau gwleidyddol neu ganfasio am bleidleisiau trwy eich cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol eich hunain, na fydd hynny'n dderbyniol os ydych yn cynnig barn ar ran y Cyngor.
- (12) Peidiwch â chyhoeddi eich manylion cyswllt os all pobl nad oeddech yn bwriadu iddynt eu gweld gael gafael arnynt a gwneud defnydd helaeth ohonynt, a pheidiwch byth â chyhoeddi manylion cyswllt unrhyw un arall.
- (13) Peidiwch gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol.
- (14) Byddwch yn ymwybodol o'r wybodaeth a roddir ar safleoedd a sicrhewch nad yw safbwyntiau personol yn cael eu cyhoeddi fel rhai'r Cyngor.
- (15) Gofynnwch am ganiatâd i gyhoeddi ffotograffau neu fideos gwreiddiol gan y bobl neu'r sefydliadau yn y fideo neu'r ffotograff cyn eu llwytho. Rhaid i chi sicrhau bod caniatâd rhieni / gwarchodwr ar gael cyn defnyddio lluniau o blant.

(VII) Gwefan y Cyngor

Bydd y Clerc / Dirprwy Glerc yn diweddarau gwefan y Cyngor efo'r materion canlynol:

- Rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd
- Hysbysebu digwyddiadau a gweithgareddau
- Postio straeon newyddion da
- Cysylltu â gwefannau priodol neu dudalen i'r wasg os yw'r safleoedd hynny yn bodloni disgwyliadau'r Cyngor o ran ymddygiad ar yr amod bod eu telerau ac amodau'r wefan honno yn caniatáu hynny
- Hysbysebu swyddi gweigion
- ' rhannu ' gwybodaeth gan bartneriaid.
- Postio neu rannu gwybodaeth cyrff hyrwyddo er budd y gymuned megis ysgolion, Sgowtiaid, clybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol
- Gellir defnyddio Facebook ac ati i gefnogi'r wefan.



(VIII) Monitro

(1) Dylai gweithwyr ac Cyngorwyr fod yn ymwybodol y gall unrhyw ddefnydd o wefannau Cyfryngau Cymdeithasol (os ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion y Cyngor ai peidio) gael ei fonitro a, phan ddarganfyddir enghreifftiau o dorri'r polisi hwn, y gellir cymryd camau yn erbyn gweithwyr o dan ein Gweithdrefn Ddisgyblu a chynghorwyr o dan y Côd Ymddygiad.

(2) Mewn rhai amgylchiadau, gall camdefnyddio gwefannau Cyfryngau Cymdeithasol fod yn weithred droseddol.

(3) Yn benodol, mae'n debyg y bydd achos difrifol o uwch lwytho, postio, danfon ymlaen neu bostio dolen at unrhyw un o'r mathau canlynol o ddeunydd ar wefan Cyfryngau Cymdeithasol, boed yn broffesiynol neu'n bersonol, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol / torri amodau'r Cod Ymddygiad (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol):

a) deunydd pornograffig (hynny yw, ysgrifennu, lluniau, ffilmiau a chlipiau fideo o natur amlwg rywiol neu rywiol gynhyrfol);

b) datganiad anwir neu ddifenwol am unrhyw berson neu sefydliad;

c) deunydd sy'n dramgwyddus, ffaidd, troseddol, gwahaniaethol, bychanol neu allai beri embaras i'r Cyngor, ein Cyngorwyr neu ein gweithwyr;

ch) gwybodaeth gyfrinachol am y Cyngor neu unrhyw un arall;

d) unrhyw ddatganiad arall sy'n debygol o greu unrhyw gyfrifoldeb (boed droseddol neu sifil, boed i chi neu'r sefydliad); neu

dd) ddeunydd sy'n torri hawlfraint neu hawliau eiddo deallusol eraill, neu sy'n tarfu ar breifatrwydd unrhyw berson.

Eir i'r afael ag unrhyw weithredu o'r fath o dan y Weithdrefn Ddisgyblu ar gyfer swyddogion ar Côt Ymddygiad ar gyfer Cyngorwyr.

(4) Pan ddarganfyddir tystiolaeth o gamdefnyddio gall y Cyngor gynnal ymchwiliad manylach fyddai'n cynnwys archwilio a datgelu cofnodion monitro i'r sawl a enwebwyd i gynnal yr ymchwiliad ac unrhyw dystion neu reolwyr sy'n rhan o'r ymchwiliad. Os oes angen, gellir rhoi gwybodaeth o'r fath i'r Heddlu fel rhan o ymchwiliad troseddol.

(5) Os sylwch fod unrhyw ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol gan weithwyr eraill / Cyngorwyr yn torri'r polisi hwn dylech roi gwybod i'r Clerc, fydd yn cysylltu gyda Swyddog Monitro'r Cyngor.



(IX) Y Cyfrifoldeb dros “Gynnwys”

Un gwahaniaeth mawr rhwng y Cyfryngau Cymdeithasol â chyfryngau a llwyfannau eraill yw bod ceidwad unrhyw “safle” yn gyfrifol nid yn unig em eu datganiadau eu hunain ond hefyd am datganiadau gan eraill sydd yn cael eu gwneud ar y safle hynny. Felly, os oes datganiad amhriodol, perchennog y “safle” sydd yn gyfrifol am dynnu’r datganiad hynny oddi yno.

(X) Monitro ac adolygu’r polisi

Bydd y Cyngor yn gyfrifol am adolygu’r polisi hwn bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion cymdeithasol ac yn adlewyrchu arfer gorau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gyfer Cynghorwyr, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol i’w gweld ar wefan Un Llais Cymru:-
http://www.onevoicewales.org.uk/OVWeb/good_practicegeneral-8204.aspx

Mehffin 2020